"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1884. [RHIF 35.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth gan y diweddar Barch. William Thomas, M.A. (Gwilym Marles)	145
Defosiwn	150
Dyfodiad Crist	152
"Addysg y Deuddeg Apostol"	157
"Rhaid fod Gwahanol Sectau"	163
Nodynau Gwasgarog	165
Dwy yn malu	165
Sectariaeth	165
Manion a Hanesion	167
Marwgofion	168

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1884. [RHIF 35.

" Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PREGETH

GAN Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

" Etto dywedodd Seion, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd. A anngliofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ie, hwy allant annghofio, etto myfi nid annghofiaf di."—Esaiah xlix. 14, 15.

MAE llawer wedi dal mai am " Grist a'r Eglwys " y llefara'r proffwyd yn y bennod hon. Mae dwy ystyriaeth y dymunwn eu nodi paham nad yw yr olwg hon yn ymddangos i mi yn gywir. (1) Yr wyf yn cael boddlonrwydd i fy meddwl fy hun mai at ddygwyddiadau yn perthyn i amser eu llefariad, at amgylchiadau y pryd hwnw yn cymmeryd lle neu ar droed y ffordd i gael eu cyflawnu y mae cyfeiriad yn mhob man yn y rhanau hyny o'r Hen Destament a ant yn gyffredin o dan yr enw o broffwydoliaethau. Beirdd a dysgawdwyr oedd y proffwydi; nid oedd rhagddweyd pethau dyfodol ond un rhan, a hono y rhan leiaf pwysig o'u swydd; a phan y gwnaent hyn, ymddengys mai am yr hyn oedd gerllaw, am yr hyn yr oedd eu sylw a'u myfyrdod yn rhagarwyddo iddynt ei fod ar gael ei ddwyn o amgylch y llefarent. Dynion eu hoes oedd y proffwydi, yn ysgrifenu am helyntion eu hoes eu hunain. Nid nad oeddent yn canfod yn mhellach nag ereill; gwelent yn graffus ac yn mhell. Cawn mai un o'r enwau arnynt yw gweledyddion, nid nad oedd eu golygiadau hwy yn rhagori ar eiddo eu cydoeswyr. Safent ar dir uchel : " Safaf ar fy nysgwylfa ac ymsefydlaf ar y tŵr a gwyliaf " meddai un o honynt; ac oddiar y tir uchel hwn edrychent allan gan wylio'r cwrs oedd pethau yn gymmeryd. Gwelent hwy y nen yn duo, a'r cymmylau yn crynhoi, neu ynte, wawr gobaith yn tori,

a phelydrau cyntaf llwyddiant yn ymwasgaru o flaen mwyafrif eu cydgenedl; a gwasanaethent fel geneuau dros Dduw, weithiau i rybuddio a cheryddu, ac weithiau i galonogi a chysuro eu cyd-ddynion. Mae yr olwg hon ar y swydd broffwydoliaethol yn fy nhueddu i ddeall y bennod hon fel manau ereill fel yn cyfeirio at ryw gyfnod nes at y proffwyd nag amser Crist. (2) Mae'r iaith a arferir yma mor gymhwys, y desgrifiadau a roddir mor darawiadol, er gosod allan y tro dedwydd ar bethau ag yr oedd calonau ffyddlonaf y genedl y pryd hwnw yn hiraethu am dano, a'u meddyliau yn ei ganfod yn nesu at gyflawniad, sef dychweliad yr Iuddewon alltudiedig yn Mabylon i dir eu gwlad. Cymmerai ormod o amser yn awr i fyned dros y bennod o'r dechreu er dangos hyn. Gwasanaethed yr adnodau yn union o flaen y testyn fel enghreifftiau. Yn yr adnod o flaen y testyn, darlunir mewn iaith hedegog a chyffrous y llawenydd yr oedd y rhagolwg am y dychweliad yn enyn yn meddwl y proffwyd—llawenydd y gelwir ar y greadigaeth o amgylch i gyfranogi o hono: "Cenwch, nefoedd, a gorfoledda ddaear; bloeddiwch ganu y mynyddoedd," &c. "Etto y dywedodd Seion." Wrth Seion yma y deallwn Jerusalem, prif ddinas y bobl alltudiedig. Gosodir hi allan, ar ol cael ei hamddifadu am dymhor mor faith o'i phreswylwyr, a'i gwneyd yn gartref annghyfanedd-dra a galar, fel yn anmharod i gredu fod y fath lawenydd yn stor iddi; yr oedd y newydd yn rhy dda iddi i allu ei dderbyn. Wrth fwrw golwg ar yr amser hir y bu ei phreswylwyr yn aros mewn gwlad ddyeithr, ac ar faint y caledi y darostyngwyd hwy iddo yn nhir eu caethiwed, hi a ddywedodd: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd a'm Harglwydd a'm hannghofiodd." I hyn mae'r proffwyd yn ateb mai nid felly yr oedd, ond fod serch Duw at ei bobl yn fwy sicr, yn fwy dianwadal nag hyd y nod eiddo mam at ei phlentyn. O'r ddau, fod cryfach sicrwydd na fuasai Duw yn annghofio ei bobl nag oedd na wnaethai serch mam oeri at ei phlentyn sugno. "Ie, hwy a allant annghofio," nid oedd hyn tuhwnt i derfynau posiblrwydd. Fel y mae'r rheswm weithiau oblegyd rhyw achosion nas gallwn ni, dichon, eu holrhain, yn dyrysu yn ei gwrs, neu'r gydwybod yn methu yn eu gwaith, felly hefyd mae yn bosibl hyd y nod i serch cynhes a greddfol y fam i annghofio ei wrthddrych, "etto myfi nid annghofiaf di;" nid oedd yn beth i'w ddychymygu am funyd y buasai Duw yn pallu yn ei ffyddlondeb. "Wele ar gledr fy nwylaw y'th argreffais;" i ddangos nas gallasai Duw annghofio Jerusalem, gesyd y proffwyd ef allan yn mhellach fel yn ei hanerch ac yn dweyd wrthi fod y darlun o honi megys wedi ei gerfio ar ei ddwylaw, ac yn wastad yn ei olwg, a bod yr olwg ar y darlun hwn yn ei chadw mewn coffadwriaeth wastadol ger ei fron: "dy furiau sydd ger fy mron bob amser." Fel hyn mae'r iaith a ddefnyddir yma mor uniongyrchol a hollol gyfaddas tuag at osod allan yr amgylchiadau cydfynedol á dychweliad yr Iuddewon i dir eu gwlad, fel nas gallaf fi weled y priodoldeb o'u troi at ddim arall.

Dichon y dywedir wrthym gan y rhai a fyntumiant fod ystyr ddeublyg i'r proffwydoliaethau, fod y geiriau hyn ac ereill tra yn cyfeirio yn mlaenaf at y dychweliad o'r caethiwed, yn cyfeirio hefyd yn ail at

waredigaeth y genedl o gaethiwed gwaeth trwy Iesu Grist. Yr ateb i hyn yw: nid ydym yn gwadu nas gellir *cymhwyso* yr ymadroddion a'r desgrifiadau a gawn yma, ac mewn rhanau ereill o'r proffwydoliaethau, at amser Crist, a hyny gyda llawer o briodoldeb, fel yr ydys yn wir wedi gwneyd yn dra helaeth gan ysgrifenwyr y Testament Newydd; ond y cwestiwn blaenaf i ni i'w ofyn yw, at ba beth yn debyg y cyfeiriai'r proffwyd ar y pryd, am ba ddygwyddiadau yr oedd ef yn *ymwybodol* ei fod yn llefaru. Nid oes dim allan o le mewn cymhwyso, ond cadw mewn cof mai cymhwyso yr ydys. Peth arall yw dal fod y proffwyd yn llefaru ar y pryd nid gydag un meddwl, ond gyda dau feddwl. Mae digon o enghreifftiau yn nghynnyrchion llenyddol pob cenedl o ymadroddion yn cael eu cymhwyso oddiwrth un peth at beth arall; a gellir sylwi mai y fath uwchaf, fwyaf ehediadol o gyfansoddiadau a drinir yn y modd hwn. Peth arall hollol yw dal fod gan yr ysgrifenwyr olwg ar y pryd ar ragor nag un peth. Ond mi a adawaf y pwnc hwn ar hyna, ac ni a adawn yr Iuddewon hefyd, i geisio edrych am ychydig amser ar y testyn, yn yr addysg odidog a gynnwysa i ni ac i bawb.

Pob peth sydd wedi ei ysgrifenu, mal er addysg i ni. Wrth rodio ar hyd feusydd yr ysgrythyrau yma, mae'r meddwl ystyriol yn lloffa tywysenau gwerthfawr o addysg a chysur ar bob cam. Mor hyfryd i ni yn awr yw darllen profiadau nefol yr hen saint, a'r tystiolaethau eglur a chadarn maent yn ddwyn i ddaioni a ffyddlondeb Duw, a doethineb ei drefnau. Gellid meddwl fod y Beibl i fod,—ac hyderaf ei fod bellach ar droed y ffordd i hyn—yn llyfr nid i'n rhanu a'n dyeithrio oddiwrth ein gilydd fel Cristionogion; nid i fod yn fath o ysglyfaeth ag mae pob plaid am ei pherchenogi iddi ei hun gan erlid pob un arall i ffwrdd, ond yn llyfr i'n huno yn nghyd, i'n dwyn yn agosach at ein gilydd, ac i gydymdeimlo a chydweithredu â'n gilydd yn fwy. A phaham? Am ei fod yn dangos i ni mor amlwg mai'r un peth yw dyn, mai'r un peth yw'r natur ddynol yn mhawb yn mhob man; mai yr un yw hi yn awr â phan oedd yr hen broffwydi a'r Apostolion wedi hyny yn rhodio ar y ddaear, am ei fod yn dangos i ni fod yr un cwestiynau yn cael eu gofyn, yr un anhawsderau yn cael eu teimlo gynt ag sydd yn awr; ac yn mhellach, mai'r atebion a roddwyd y pryd hwnw; mai'r ffyrdd a gawsent hwy allan y pryd hwnw i gwrdd â'r cyfryw anhawsderau, mai'r sylfeini i'w hymddiried, i'w cysur a'u gorfoledd ag oeddent adnabyddus i saint yr hen amser; mai'r cyfryw a brofir gan y da a'r doeth yn yr oes hon hefyd y goreu, y mwyaf addas ar gyfer ein bywyd helyntus ni ar y ddaear hon yn awr. Yn hytrach, gan hyny, nag aros gyda'r llythyren, ac ymrafaelio yn nghylch pynciau ffydd a chredoau, onid gwell fyddai i ni fyned rhagom at yr hyn sydd sylweddol a pharhaus, yr hyn sydd werthfawr er enyn a meithrin y bywyd ysprydol o'n mewn yr hyn sy'n abl i'n gwneyd yn ddoeth i iechydwriaeth, ac i'n helpu i fyw gwell a godidocach bywyd yn y byd sydd yr awrhon? Yn hytrach nag ymryson am y wisg a'r addurniadau, onid gwell fyddai i ni eistedd i lawr ar unwaith a chyfranogi o'r gwleddoedd o ddoethineb ac o brofiad duwiol a gawn wedi eu harlwyo yn y Beibl ar ein cyfer?

Mae yn y testyn ddau beth yn galw am ein sylw: I. Teimlad o brudd-der a siomedigaeth chwerw-dost. "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. II. Y sicrwydd o dynerwch a dianwadalwch y cariad dwyfol. "A annghofia gwraig ei phlentyn sugno?"

I. Mae adegau wedi bod, yn dra thebyg, yn mywyd pob dyn pan oedd yn barod i dori allan mewn geiriau cyffelyb i'r rhai hyn. Pob un sydd yma yn awr, wedi gweled bagad o flynyddau ar y ddaear, ac wedi cael tipyn o brofiad yn y byd, odid na ddarfu iddo mewn rhyw galedi neu gilydd, ddychymygu yn ei galon, os nad dweyd mewn geiriau fod yr Arglwydd wedi ei wrthod ac wedi ei annghofio. Nid oes yr un o honom a all fyned i mewn i ystafelloedd calon ei gymmydog, a gweled olion pa dristwch, neu alar, neu siomedigaeth sydd wedi eu gadael yno. Pob calon a wyr am ei chwerwder ei hun.

"Y mae dannedd mân gan brudd-der,
Rhai na welir dim o'u llun,
A ddyfethant bob yn 'chydig
Nerth a gallu enaid dyn."

Mae rhyw brudd-der neu gilydd wedi bod wrth ei waith yn y fynwes, yn y dydd, yn difa nerth a hoywder yr yspryd, ac yn tori ar dawelwch ei orphwysfa yn y nos. Amserau wedi bod pan nad oedd ond cymmylau a thywyllwch o amgylch yr orsedd fawr, Duw fel wedi gadael y ddaear, wedi annghofio gwneuthur barn, ei ffyddlondeb wedi pallu. Iaith yr enaid y pryd hwnw oedd,—"Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. (1). Y trallod cyssylltiedig a chystudd neu farwolaeth fydd weithiau yn achosi y teimlad hwn. Gelwir arnom oll i fod yn dystion o'r naill a'r llall ar ryw adeg neu gilydd o'n bywyd, ac ni ddianc yr un o honom rhag eu profi ryw dro yn ein personau ein hunain. Weithiau daw cystudd i mewn i deulu, ac yno bydd yn oedi ac yn oedi fel pe yn anfoddlawn i ymadael yn waglaw. A pha mor fynych y gwelwn ol yr angeu yn ein gwahanol gylchoedd, a'r galon rwygedig yn galaru ei cholled, anadferadwy hollol i'w golwg ar y pryd? Ti gollaist dad tyner a diwyd, neu fam gariadus a rhinweddol; dygwyd ymaith y brawd a garai ac a gerid gan bawb, neu'r chwaer ag oedd yn anadlu sirioldeb a serch ar bawb yn agos ati. Cipiodd angeu ymaith wraig dy fynwes, gan dy adael wrthyt dy hun i ymladd brwydr bywyd, ac ymdroi yn nghanol ei ofalon a'i drafferthion. Darfu rhyw lwydrew sarug ysgubo ymaith rai o'r blodau tyner a hardd oeddent yn dechreu agor yn ngardd y teulu, am dro fe gollodd bywyd ei holl swyn yn dy olwg; yr oeddit yn teimlo nad oedd dim yn werth byw o'i blegyd mwy; yr hyn oedd wedi ei fynwesu fwyaf, hyny a ddygwyd oddiarnat. Pan geisit ymgysuro a gwisgo'r tristwch ymaith, yr oedd dy galon yn rhy lesg, dy obaith wedi ei glwyfo ac yn gorwedd yn archolledig; a chodai'r geiriau hyn i fyny o'r galon er dy waethaf: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.

(2) Mae rhyw gyfnewidiad disymwth a blin yn yr amgylchiadau bydol brydiau ereill yn achlysur i'r un teimlad. Fe'th oddiweddwyd gan ryw anffodion trymion, dy golledion yn ormod i ti allu eu dwyn;

cefaist dy daro gan ryw ergyd o aflwyddiant yn dy alwedigaeth neu dy fasnach, fe fethodd rhai o'th gynlluniau gonest tuag at gynnaliaeth dy deulu. Fe'th siomwyd mewn rhyw obaith hoffus, oeddit wedi ei hir goleddu yn ngwaelodion dy galon; rhywbeth y breuddwydit am dano pan yn llanc, y parotoit ar ei gyfer yn nhymhor dy ieuenctid. Megys mewn noswaith fe wywodd nes nad oedd dim ond malldod a lludw lle o'r blaen yr oedd gwyrddlesni a phrydferthwch dengar. Fe giliodd y gobaith o'r galon gan adael ei le yn wag. Byth oddiar hyny mae ei le yna fel rhyw ystafell wag a thywyll mewn tŷ nad oes troed yn sangu ynddi, na llais dynol byth yn tori ar ei thawelwch; ac yn nghyfyngder dy yspryd, yn chwerwder dy enaid ti a ddywedaist: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.

(3) Mae y iaith hon yn gosod allan hefyd y wasgfa a'r ing a deimlwn weithiau mewn cyssylltiad ag edifeirwch am bechod, pan mae'r meddwl yn cael ei ddihuno i weled ffolineb ac ynfydrwydd y llwybrau y buwyd yn rhodio ar hyd-ddynt. Mae yma rywun, fe ddichon—plentyn i rieni rhinweddol a da, plentyn feallai a dderbyniodd addysg dda oddiwrthynt yn moreu oes. Ti fuost yn blentyn eu gweddiau a'u dymuniadau dwysaf; hwy a ymaflent yn dy law yn awyddus i'th roi i rodio ar hyd ffyrdd rhinwedd a duwioldeb, lle yr oedd eu hyfrydwch penaf hwy. Pan ymadawaist â'r hen nyth dawel, ddedwydd, ac y taflwyd di i blith temtasiynau byd a chnawd, yn mhoethder dy nwydau, ar ryw [awr] anystyriol a byrbwyll, fe'th ddenwyd i gellwair â phleserau gwenwynig pechod. Ar ol dechreu yr oedd yn anhawdd troi yn ol, yn mlaen ar lithrigfa yr êst o gam i gam, yr hen gynghorion a'r esiamplau da a gefaist yn dy wneyd ar brydiau yn anesmwyth; cydwybod lân dy febyd yn dy gyhuddo, ond yn fuan yn cael ei dystewi yn naws a llawenydd pechod. Yn raddol crwydraist yn mhell o lwybrau dy addysg foreu, a chofleidiaist arferion a wisgant dy wyneb *yn awr* pan feddyliot am danynt â chywilydd,—arferion nad yw y cleisiau a'r creithiau a dderbyniaist oddiwrthynt hyd etto wedi eu llwyr iachau. Pan ddaeth rhywbeth a roes attalfa ar dy rediad gwyllt, gan ddwyn ar gof i ti dy dad, ac oriau mebyd ac ieuenctid—dedwydd am eu bod yn rhinweddol—pan deimlaist faich dy gamweddau fel mynydd o blwm yn pwyso ar dy ysgwyddau; pan ruai'th gydwybod fel arthes wedi colli ei chenawon; pan yr aeth hi mor dywyll, mor helbulus, mor gyfyng arnat fel na wyddit pa le i droi, heb deimlo llwybr rhydd hyd y nod at y Tad cariadlawn ei hun, a thoraist di ddim allan: "Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu;" "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. ?

(I'w barhau.)

Cydwybod Euog.—Och imi, y fath beth!
Meddyliais fod y tonau'n dweyd y gair;
A'r gwyntoedd yn ei ganu yn fy nghlust;
A'r daran, megys pibau organ mawr,
Ar ddofn ddychrynllyd dôn yn rhuo'r enw!—
Shakspere.

DEFOSIWN.

DARLLENWYD YN AGORIAD CAPEL NEWYDD "Y BRYN."

Nid gair Cymraeg yw, er fod y Cymry wedi ei fabwysiadu a'i arfer felly fel llawer o eiriau ereill sydd wedi ymlusgo i mewn i'r hen iaith, nid yn gymmaint o herwydd ei thlodi, ond o herwydd balchder tylwyth Dic Shon Dafydd. Mae'r gair wedi dyfod i ni, yn debyg, yn union-gyrchol o'r Saesneg *(Devotion)*, ac y mae y Saeson wedi ei gymmeryd o'r Lladin. Yn y Lladinaeg yn debyg mae ei wraidd.

Dim ond unwaith y cyfarfyddir â'r gair *Defosiwn* yn y Testament Newydd; a dim ond dwywaith y mae y gair *gwreiddiol* am dano i'w weled yn y Testament Groeg. Actau xvii. 23; II. Thess. i. 4. Yn yr olaf "*peth a addolir*" yw'r cyfieithad; tra yn y blaenaf yr ydym yn cael y gair *Defosiwn*, ac ar ymyl y ddalen "eich duwiau a addolwch" —yr un peth o fewn i ddim â'r gwelliant yn y *Revised Version*—"*The objects of your worship*,"—gwrthddrychau eich addoliad.

Mae y gair Saesneg "*Devout*" i'w gyfarfod wyth o weithiau yn y Testament Newydd Saesneg, oll ond *un* yn Actau yr Apostolion; ond nid yr *un* gair sydd yn y gwreiddiol,—mae yno dri o eiriau gwahanol, *eulabês*, *eusebês*, *sebomenos*. Yn y cyfieithad Cymraeg y mae *eulabês* yn cael ei gyfieithu "Duwiol a Bucheddol," y gair *eusebês*, "Defosiynol," a'r gair *sebomenos*, "Crefyddol." Tebyg fod ystyron y geiriau yma yn rhedeg i'w gilydd, ac i fesur mwy neu lai yn cymmysgu â'u gilydd yn eu gwahanol sefyllfaoedd a'u cyssylltiadau. Nis gallaf fi ddweyd fod llawer os *dim* gwahaniaeth meddwl yn y geiriau yma yn y *gwreiddiol*, y *Saesneg*, a'r Gymraeg, *Duwiol*, *Bucheddol*, *Defosiynol*, *Crefyddol*. Dylai dyn defosiynol fod yn ddyn duwiol, crefyddol, a bucheddol.

Efallai mewn ymddyddan cyffredin ein bod ni wrth *Ddefosiwn* yn golygu *seremoniau*, neu *ddefodau* crefyddol—*gwisgoedd* a *dillad* crefydd, crefydd yn ei *ffurfiau* a'i *hallanolion*. Dynion defosiynol, neu llawn o ddefosiynau yw dynion o *wedd* addolgar, yn cyrchu i'r addoliad, yn darllen eu Beiblau, yn gweddio, yn canu mawl, o drem ddifrifol, yn grefyddol eu siarad, yn grefyddol eu gwisg a'u cerddediad—manwl a *strict* yn holl allanolion crefydd,—yn ymarfer â'r moddion yn dra diesgeulus, &c. Mae hyn oll yn ofynol, yn gymmeradwy, yn brydferth, yn Gristionogol—maent yn adgyfnerthion crefydd ymarferol, ysgaffaldau bywyd a chymmeriad da. 'Rwy'n caru'r dynion sydd yn mynychu'r addoliad trwy bob trwch a thrin, trwy bob tywydd; 'rwy'n edmygu'r dynion sydd yn parchu eu Beiblau, nid wrth eu cadw yn eu coffrau, neu fel *ornaments* yn eu *glass-cupboards*, ond trwy eu darllen a'u deall; 'rwy'n caru'r dynion sy'n gweddio pa un bynag ai yn gyhoeddus ai yn ddirgel, mewn sain llafar ai ynte mewn ocheneidiau annrhaethadwy; 'rwy'n caru dynion difrifol eu golwg, o osgedd grefyddol, &c.

Ond dyma lle mae'r pwys. Mae'n rhaid bod yn *egwyddorol*, yn *onest*, yn *ddidwyll* yn ein holl defosiynau—nid gorphwys ar ffurfiau, nid credu

mai defodaeth yw crefydd a dim ond hyny. 'Nawr fel hyn : dyma ddyn wedi bod yn yr addoliad, efallai eich bod yn ei 'nabod, ond wedi dyfod tua thref mae'n llawn o'r yspryd drwg, yn tyngu ac yn rhegu, yn curo ac yn cicio ei wraig a'i blant, a thranoeth yn marchnad Llanybyther i fynu mewn pob cythreuldeb ac ystryw, yn ysgafn ei bwysau, yn brin ei fesur, ac yn ei holl drafodaeth yn llawn o bob hoced. Dyma un etto wedi newydd ddarllen "Gwnewch dda i bawb," ond wnaiff ef ddim daioni i neb. Dyma'r llall, drachefn, newydd ddarllen "Dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog;" ond ar gelwydd mae e'n byw. Dyma un, newydd godi oddiar ei liniau, ac un o erfyniadau ei weddi oedd "Crea galon lân ynwyf O Dduw, ac adnewydda yspryd uniawn o'm mewn;" ond nid yw'r gwr mewn gwirionedd ddim *am* galon lân ac yspryd uniawn—mae y rhai sydd ganddo yn ei *suito* yn well. Nid yw Defosiwn o'r fath yma *ddim*, a gwaeth nâ hyny, y mae yn *bechod*, oblegyd *rhagrith* yw; a dyna fel y dywedodd ein Iachawdwr, "Gwae chwi Ysgrifenyddion, Phariseaid, rhagrithwyr." Mae y *Deist*, *Atheist*, a'r *heretic* mwyaf, os yn egwyddorol a chydwybodol felly, yn sefyll yn uwch yn fy ngolwg I, ac, fel yr wyf yn credu, yn fwy cymmeradwy yn ngolwg y Nefoedd nag adyn defosiynol digydwybod.

Yr wyf wedi dywedyd fod egwyddor, onestrwydd, didwylledd, &c., yn hanfodol i *wir ddefosiwn*,—nid yw hyny hefyd yn *ddigon*. Mae'r Mahometaniaid yn ddigon *sincere* yn eu crefydd a'u defosiwn; ond credwyf yr ewyllysia y Tad Nefol rywbeth yn amgenach, uwch, a phurach nâ'r eiddynt hwy. Mae dynion i gael yn cael eu cynhyrfu neu a weithiant eu hunain i ryw fath o wynias neu berlesmair yn eu defosiynau nes colli eu hunain mewn gwallgofrwydd crefyddol,—Cristionogion hefyd, a'u honestrwydd a'u didwylledd uwchlaw pob amheuaeth; ond a ydyw defosiwn y cyfryw, er yn llawn *yspryd* defosiwn, *mor* anrhydeddus, ac mor unol ag ewyllys Duw â'r addoliad byw, sanctaidd a rhesymol mae Paul yn son am dano yn y Testament Newydd? Mae yr Hindw mor ddefosiynol, mor wresog ei dduwiolfrydedd, mor ddidwyll ei *zêl* pan yn taflu ei hunan yn aberth gwirfoddol dan olwynion cerbyd Juggernaut, ag y dichon un addolwr fod, ond diau fod y Tad Mawr yn edrych arno druan à llygad o *dosturi*, yn cymmeradwyo ei ddidwylledd defosiynol, ond yn trugarhau wrth ei ddygn anwybodaeth.

Felly y mae gwahaniaeth rhwng defosiwn a defosiwn, y naill yn dangos teimlad a dim llawer *ond* hyny, a'r llall yn dangos teimlad *hefyd*, ond dan lywodraeth y synwyr a'r deall a'r cyfryw wedi cael eu goleuo, a'u dysgyblu a'u tymheru gan wybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist;—defosiwn yw hwn, teilwng o'r Cristion goleuedig, a theilwng o'r Tad cyffredinol.

Mae ein syniadau am wrthddrych addoliad—am ei gymmeriad moesol, os yn amrywio, yn gwneuthur gwahaniaeth hefyd yn ein defosiwn. Os mai yn y goleu o drawsarglwydd digofus, anfaddeugar, a chreulon, yr ydym yn edrych ar Dduw, yspryd ofn ydyw yspryd ein haddoliad; teimlad o *ddychryn* a *braw* sydd yn peri i ni ymostwng ger ei fron mewn gweddi a deisyf am ei drugaredd rhag cael ein taflu i'r llosgfeydd tragywyddol! O'r tu arall, os ydym yn synied am Dduw fel Tad tru-

garog a maddeugar, yr hwn sydd yn gwybod ein defnydd ni ac yn cofio mai llwch ydym, yr hwn sydd yn llawenhau am un pechadur a edifarhao, yr hwn sydd â'i freichiau yn agored i dderbyn pob afradlon edifeiriol—*anfeidrol mwy parod*, nag y mae un tad a mam ddaearol i roesawu un o'u plant anufudd ar ei ddychweliad; yna yspryd cariad a pharch sydd yn chwyddo ein defosiwn; mae ein calonau yn cael eu gwresogi gan dân nefol, a'n heneidiau yn dyheu am bresenoldeb a chyfrinach Tad ein hysprydoedd. Nid baich yw defosiwn, addoliad, neu unrhyw ddyledswydd grefyddol arall mwyach, ond y pleser a'r dedwyddwch mwyaf tu yma i'r Nefoedd—rhyw *ddafnau* o'r gorfoledd Nefol fydd yn fôr didrai yn y byd tragywyddol.

Ymdrechwn am adnabyddiaeth gywir o Dduw—gwrthddrych ein haddoliad a'n defosiwn, nes y byddo'n holl wasanaeth crefyddol yn cael ei buro, ei ddyrchafu, a'i sancteiddio, a nes y byddom ninau yn teimlo rhyw at-dyniad nefol drwy ein holl natur, ac arogl blodeu anfarwol Paradwys yn peri i ni yn rhywfodd feddwl ein bod yn y Nefoedd yn barod.

Mae'n wir efallai ein bod ni fel Undodiaid yn ol ar yr enwadau Cristionogol ereill mewn *dangosiadau* defosiynol aml a chyhoeddus; ond gobeithio nad ydym gymmaint ar ol mewn *egwyddor* ac *yspryd* defosiynol. Mae hyn yn ddiffyg, ac y mae eisieu ei gyflawnu. Pe gwnaem ein hunain yn fwy cyhoeddus dynion—pe byddem yn fwy manol a ffyddlon gydag ordeinadau allanol crefydd, byddem yn fwy o halen cymdeithas, yn fwy o oleuni'r byd, ac yn weithwyr mwy llwyddiannus yn Eglwys Iesu Grist ar y ddaear. Yr wyf yn credu ein bod ni wedi encilio i *Frigid Zones* defosiwn er gochelyd yn ddigon pell y cylch poeth yn mha un y mae'r enwadau yn crefydda—wrth ochel un eithafion yn rhedeg i'r eithafion arall. Yr wyf yn credu mai o fewn y cylchoedd tymherus y carai gwir grefydd—crefydd resymol—crefydd y Testament Newydd gyfyngu ei defosiynau, a'i hordinadau.

Ap Ioan.

DYFODIAD CRIST.

Syr,—Fel y gwyddoch, y gair Groeg yn y Testament Newydd am ddyfodiad Crist yw *Parousia*. Ystyr cyntefig y gair yw *presenoldeb*, sef presenoldeb Crist ar y ddaear. Paham y dewisodd y cyfieithwyr Cymreig y gair *dyfodiad*, nis gwn, ac nid yw o fawr pwys. Cyfarfyddir, ond nid mor fynych, â dau air arall i ddynodi yr un peth. Un yw *Epiphaneia*—ymddangosiad, neu dysgleirdeb. Y llall yw *apokalupsis*, datguddiad. Yn lle y gair *dyfodiad*, bydd i mi yn y llythyr hwn, ac yn fynych o hyn allan, ddefnyddio y gair Groeg Parousia, fel yn fwy cyflawn gair nâ'r gair Cymraeg *dyfodiad*, ac ar ol yr eglurhad hwn bydd eich darllenwyr yn deall mai presenoldeb Crist gyda ei saint anfarwol yn ei deyrnas ddyfodol ar y ddaear feddyliaf wrth Parousia.

A ydyw yr Arglwydd Iesu etto i ddychwelyd i'r byd? Dyma y cwestiwn. "Nac ydyw," medd y mwyrif mawr o broffeswyr Cred. Dyma farn Eglwys Rhufain, Eglwys Groeg, Eglwys Loegr, y Lutheriaid, a'r Annghydffurfwyr o bob enwad. "Mae'r Iesu wedi myned i'r nefoedd," meddant, "ac yno y mae yn teyrnasu gydag eneidiau anfarwol y saint sydd wedi ymadael â'r fuchedd hon. Camsynied yr Ysgrythyrau mae pawb a roddant goel i'r athrawiaeth mai ar y ddaear y bydd ei deyrnas."

Wel, gadewch i ni gael edrych ar y cwestiwn yn dawel, ac yn ngoleu y Beibl. A oes rhyw beth yn wrthun yn yr Athrawiaeth, attolwg? Oni fu ar y ddaear unwaith pan yn y cnawd? Oni ymddangosodd fwy nag unwaith, wedi adgyfodi o feirw, i'w ddysgyblion, y rhai a'i hadwaenent oreu? Ac hyd y nod wedi ei esgyniad i'r nef, oni ymwelodd â'r ddaear? Gwelodd Stephan ef (Act. vii. 56). Gwelodd Saul o Tarsus ef (ix. 5), a mwy nag unwaith (xxvi. 16). Ac yn ddiweddaf oll y mae genym hanes, gwelodd Ioan ef yn Ynys Patmos (Dat. xxii. 16). Gan hyny, nid yw y gred yr ymddengys etto ar y ddaear mor wrthun ag y tybia llawer. Oni ddywedodd y ddau wr hyny a safodd â gwisg wen gerbron y dysgyblion ar fynydd yr Olewydd pan dderbyniodd cwmmwl yr Iesu allan o'u golwg, "Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef," Act. i. 11. Nid yw yn beth mor wrthun, ychwaith, y gosoda Duw i fyny freniniaeth, fel y tystia y proffwyd Daniel (ii. 44), ar y ddaear, yr hon a faluria ac a dreulia holl freniniaethau y Cenedloedd, ac a saif byth. Pwy all amheu na ddaw yr amser yn gynt nag y mae llawer yn feddwl pryd y bydd y byd yn gofyn y fath freniniaeth? Ni all neb sydd yn hyddysg mewn hanesiaeth, ac yn dal sylw manwl ar y byd yn ei gyflwr presenol, lai nag addef ei fod yn fwy drygionus, gyda'i gilydd, yn fwy annuwiol, yn fwy anffyddiog, nag a fu erioed o'r blaen? Mae dynion yn awr yn fwy cyfrwys a medrus i wneyd drygioni, a hyny o herwydd cynnydd a thaeniad gwybodaeth o bob math, ond y wybodaeth o Dduw a gwir grefydd.

Edrychwn dros holl Ewrop, y rhan fwyaf bwysig o'r bellen ddaearol, ond Unol Dalaethau America (ac nid ynt hwythau fawr gwell), a pheth a welwn? Onid bydoldeb, anlladrwydd, meddwdod, mwrdd-dra, chwythu dynion ac adeiladau i fyny i'r awyr â *dynamite*, a llyngesi a byddinoedd mawrion yn llawn arfau, ac yn barod i ollwng gwaed eu gilydd? Mae trigolion pob gwlad yn griddfan dan bwys trethi trymion. *The world is altogether out of joint.* Mae dynion da yn y byd, yr wyf yn addef, ond eithriadau ynt. Maent yn rhy wan i wrthwynebu y llifeiriant llygredig, ac y mae'r byd yn hollol analluog i wellhau ei hun. Mae ei halen wedi diflasu. Dysgawdwyr crefydd, y fath ag ydynt, ynt yn hollol ddinerth, a bron yn watwargerdd i'r werin. Beiddiaf ddweyd na ddaw dim â'r byd i'w le, yn llai nâ rhyw gyfryngiad dwyfol, a'r cyfryngiad hwnw, medd gair Duw, fydd teyrnas ddaearol Crist.

Beth yw'r achos fod cymmaint o annghrediniaeth o barthed i athrawiaeth ag sydd mor eglur yn yr Ysgrythyrau â goleuni yr haul yn

y ffurfafen? Nid oes ond un ateb. Yr Apostasi a ragfynegwyd gan yr Apostol (2 Thes. ii. 3), sydd wedi dyrysu meddyliau dynion. Mae "Duw yn danfon arnynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd" (ad. 11). Nid yn unig mae annghrediniaeth yn nghylch teyrnas ddyfodol Crist, ond hefyd rhyw ddifaterwch rhyfeddol. Ond onid felly oedd, medd yr Iesu, yn amser Noah? "Yr oeddynt yn bwyta ac yn yfed, yn priodi ac yn rhoi i briodas, hyd y dydd yr aeth Noe i mewn i'r arch. Ni wybuant hyd oni ddaeth y diluw, a'u cymmeryd hwy oll ymaith. *Felly hefyd y bydd yn nyfodiad Mab y dyn*," Mat. xxiv. 38, 39. Onid yw y broffwydoliaeth hon yn cael yn awr ei chyflawnu i'r llythyren? Mae'r "byd Crist'nogol" yn hollol ddifater am ddyfodiad Mab y dyn. Pa ryfedd i'r Iesu unwaith ofyn, "Eithr pan ddêl Mab y dyn, a gaiff efe ffydd ar y ddaear?" Luc xviii. 8. Rhagfynegir cyffelyb anffyddiaeth hefyd gan yr Apostol Petr yn nghylch dyfodiad yr Iesu, neu y Parousia. "Daw yn y dyddiau diweddaf," medd efe, "watwarwyr yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn dywedyd, Pa le mae addewid ei ddyfodiad ef? Canys er pan hunodd y tadau, mae pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y greadigaeth," 2 Petr iii. 3, 4. Cyffelyb i hyn yw siarad dynion yn awr am y Parousia. Anhawdd fyddai cael gwell cyflawniad o broffwydoliaeth Petr nâ yr hyn a ddarllenais ychydig yn ol mewn newyddiadur. "Yr ydys wedi bod yn dysgwyl llawer am Grist er ys deunaw cant o flynyddau, ond y mae etto heb ddod; ac y mae llawer wedi rhagfynegu amser y milflwyddiant, ond y maent oll wedi colli. Tebyg mai fel hyn y bydd yn y dyfodol."* Pan ddarllenais y geiriau daeth proffwydoliaeth Petr i'm cof. A ydyw camsynied yr amser yn brawf na fydd i'r Parousia i gymmeryd lle o gwbl, mwy nag yw camsynied amser *train*, weithiau, yn brawf na ddaw y *train*?

O herthynas i'r "dyddiau diweddaf"—brawddeg a gyfarfyddir â hi mor fynych yn y Beibl—wrth bob tebyg, fel y rhanai yr Iuddewon ac Apostolion Crist, yr *aiones*, neu yr oesoedd, nad ydym ni yn y pedwaredd canrif ar bymtheg, yn mhell iawn oddiwrth derfyn "y dyddiau diweddaf." Dealled y darllenydd mai nid diwedd y byd sydd i ddeall wrth y frawddeg, ond y dyddiau diweddaf gyda golwg ar y Parousia. Ni fydd eu terfyn cyn "y cyflawnir amser y Cenedloedd" (Mat. xxi. 24), neu fel y dywed yr Apostol, "hyd oni ddel amser y cenedloedd i mewn" (Rhuf. xi. 25). Wrth hyn y meddylir yr amser pan fydd Duw wedi gorphen "cymmeryd o'r cenedloedd bobl i'w enw" (Act. xv. 25). Dyben penaf Duw yn rhoddi yr Efengyl i'r cenedloedd yw, nid i broselytio yr holl fyd, fel y tybir yn gyffredin, ond i barotoi pobl i'w enw, pobl a fyddant yn addas i deyrnas Crist yn y dyfodol, ac ychydig mewn cymhariaeth, i'r miliynau a fyddant wedi bod yn y byd hyd yr amser y dêl. Pan gyflawner y bwriad dwyfol terfyna "y dyddiau diweddaf" yn nheyrnas Crist. Yn ol llyfr y Datguddiad, yr ydym yn agos i'w terfyn, oblegyd yr ydym yn byw yn agos iawn i udganiad y seithfed udgorn (xi. 15—19), neu dywalltiad y seithfed

[* Gwel Ymofynydd Mehefin, tud, 139.—Gol.]

phïol (xvi. 17—21), ac ynddynt hwy mae y Parousia i gymmeryd lle. Ond, Syr, yn gymmaint ag y dichon rhai o'ch darllenwyr synu fy mod yn crybwyll y llyfr hwn fel awdurdod, rhaid i mi ddweyd gair neu ddau yn ei gylch wrth basio. Y dyb gyffredin yw ei fod yn annealladwy. Mae ynddo rai pethau tywyll, yr wyf yn addef, ond beiddiaf ddweyd ei fod yn un o lyfrau gwerthfawrocaf y Beibl. Ynddo yn unig y datguddir amser y Parousia. Tra yn y byd, nid oedd yr amser wedi ei ei ddatguddio, hyd y nod i'r Iesu ei hun. "Eithr am y dydd hwnw a'r awr," medd efe, "ni wyr neb, na'r angelion yn y nef, na'r Mab, ond y Tad," Marc xiii. 32. Y ffaith yn unig fod y Parousia i gymmeryd lle oedd wedi ei ddatguddio iddo y pryd hwnw. Wedi ei esgyniad i'r nef y datguddiodd y Tad iddo yr Amser, a gwnaeth yr Iesu yr hyspysiad i Ioan yn Patmos, yr hwn yn unig o'r Apostolion oedd yn awr yn fyw. Trwy ei angel y gwnaeth yr Iesu yr hyspysiad, ac mewn gweledigaeth ryfeddol yr hon a berodd ddychryn mawr i'r hen ddysgybl (i. 1—9). Mae'r gweledigaethau (*scenes*) wedi eu gwisgo mewn iaith *symbolaidd*. Yr oedd rheswm digonol, yr amser hwnw, dros ddefnyddio *symbolau* yn lle iaith eglur. "Beth ydych yn feddwl," medd rhyw un, "wrth iaith symbolaidd?" Llefaru yn symbolaidd yw defnyddio gwrthddrychau i ddynodi rhyw beth neu gilydd na fyddo y llefarydd yn dewis ei ddweyd mewn iaith eglur. Er enghraifft, yn lle dweyd "Mae Rwsia ac Awstria yn dysgwyl cwymp ymherodraeth Twrci," meddyliwch ei fod yn dweyd "Mae'r arth a'r eryr yn gwylied o amgylch gwely y dyn claf." Dyna iaith symbolaidd. Mae yn taflu gorchudd dros y meddwl i bawb na sydd yn deall y symbolau. I ddeall llyfr y Datguddiad, rhaid deall beth maent yn arwyddo. Fynychaf, mae'r eglurhad i'w gael yn y llyfr ei hunan, neu os nad ydyw, y mae i'w gael yn rhyw ranau ereill o'r Beibl. Nid yn y Datguddiad yn unig y cyfarfyddir â'r dull symbolaidd. Mae yn Isaiah vi., yn Ezeciel i. ix., yn rhan fawr o lyfr Daniel, yn Zechariah vi., ac yn amryw fanau ereill o'r Beibl. Mae *môr* yn arwyddo pobloedd; *mynydd*, teyrnas fel Babilon; *dydd*, blwyddyn; *canwyllbrenau aur*, eglwys Grist'nogol yn ei phurdeb; *seren*, ei henuriaid a'i swyddogion; *lliw ysgarlad*, pechod; *draig goch fawr*, ymherodraeth baganaidd Rhufain oddeutu amser codiad Cystenyn Fawr, &c., &c. Pallai amser a'ch gofod chwithau i mi fyned dros holl symbolau y llyfr rhyfeddol hwn.

Yn awr, yn gymmaint ag nad oedd amser y Parousia wedi ei ddatguddio i'r Iesu ei hun, pan ar y ddaear, pa ryfedd nas datguddiwyd i'r Apostolion, a'u bod yn camsynied yn ei gylch? Nid yw hyn yn un prawf nad yw i gymmeryd lle o gwbl. Nid oeddynt i wybod ar unwaith holl fwriadau Duw yn Nghrist. Yn raddol mae y datguddiadau dwyfol yn cael eu gwneyd. Y farn gyffredin yw fod hyd y nod yr Apostol Paul wedi camsynied yr amser. Ond yn gymmaint ag iddo dderbyn yr Efengyl oddiwrth yr Iesu ei hun wedi ei esgyniad i'r nef (Gal. i. 12), rhesymol yw meddwl iddo gael rhyw awgrymiadau o berthynas i amser y Parousia. Os felly pa fodd mae cyfrif am ei eiriau yn ei lythyr cyntaf at y Thessaloniaid? "Canys yr ydym," medd

efe, "yn ei ddywedyd wrthych yn ngair yr Arglwydd, na fydd i ni *y rhai byw*, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant" (iv. 15). Ac yn ei lythyr at y Corinthiaid (xv. 51), dyweda, "Ni hunwn *ni oll*, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf." Yn sicr, yr oedd y Thessaloniaid wedi casglu oddiwrth ei lythyr, yr ymddangosai yr Arglwydd yn fuan, ac am hyny ymddengys eu bod mewn gofid o herwydd brodyr ag oeddent wedi huno. I esmwythau eu meddwl a symmud y camsyniad oeddynt wedi ei wneyd, mae yn danfon ei ail lythyr atynt yn ddioed—yn yr un flwyddyn, sef 52, medd Dr. Lardner. "Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, er (*am, neu yn nghylch*, Gr. *huper*) dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cyd-gynnulliad ninau ato ef, ... na'ch cynhyrfer . . . . . fel pe bai dydd Crist yn gyfagos" (ii. 1, 2). Dyweda wrthynt nad oedd mor agos ag oeddynt yn tybied, ond fod yn rhaid i'r *Apostasi*, neu'r ymadawiad, ddod yn gyntaf, a "datguddio y dyn pechod, mab y golledigaeth" (ad. 3). Wrth y geiriau hyn mae i ni ddeall yr heresiau ag oeddent wedi dechreu yn ei ddydd ef, ac ar ol hir amser, a esgorasant ar y Babaeth, yr hon sydd wedi para trwy yr oesau, ac a bery—hi a'i merched, a'i hwyrion, ei horwyrion, ac er dim a wn i, ei goresgynyddion—hyd nes y dêl yr Arglwydd, ac a'u difetha ag yspryd ei enau a dysgleirdeb ei ddyfodiad (ad. 8). Mae proffwydoliaeth yr Apostol, gan hyny, yn cynnwys cannoedd o flynyddau. Yr ystyriaeth hyn, ac hefyd ei fod yn llefaru "yn ngair yr Arglwydd," hyny yw, ar awdurdod Crist, a'm tuedda i feddwl mai wrth y frawddeg "ni y rhai byw" a "ni oll," y dylem ddeall, nid y saint yn ei oes ef, ond y rhai a fyddant ar y ddaear yn amser y Parousia.

Y peth mwyaf ei bwys i'r Crist'nogion cyntaf oedd y sicrwydd fod eu Harglwydd i ddychwelyd. Am yr amser, nid oedd o gymmaint pwys. Nid fel yr ydym ni yn cyfrif, y mae Duw yn cyfrif amser. Yn ei olwg ef mae mil o flynyddoedd fel un dydd (2 Petr iii. 8). Pe buasent yn gwybod y byddai, efallai, i ddwy fil o flynyddau i fyned heibio cyn y dychwelai eu Harglwydd, dichon, ac y mae yn rhesymol meddwl, na fuasent mor wyliadwrus, mor ymdrechgar dros y ffydd, ac mor ddewr yn ngwyneb erledigaethau, carcharau, ac angeu—rhinweddau anhebgorol yn mhlaniad cyntaf yr Efengyl.

Birkenhead, Mehefin 6. D. L. Evans.

O.Y.—Mae genyf fwy o ffydd yn fy hen gyfeillion Undodaidd nag y credant yn fyrbwyll fod syniadau y Christadelphiaid yn "afresymol a ffol." Os na fydd gan ddyn a fyddo wedi bod am flynyddau yn aelod gyda rhyw enwad o Crist'nogion, ond o'r diwedd wedi ei gadael, ddim da i ddweyd am syniadau a fu yn gofleidio mor hir, o leiaf caredigrwydd fyddai ynddo dewi son. Nid oes, ac ni fu erioed, arnaf fi ofn i osod fy hun yn gaeth yn nghadwynau y gwirionedd, ac ni chenfigenais erioed wrth y sawl sydd yn tori y fath gadwynau er mwyn rhyddid y dyn anianol. Mae yn gystal dweyd ar unwaith na fydd i mi, ac nad oes genyf amser, i wneyd sylw o'r hyn a fyddo hwn a'r llall yn ddewis

gyhoeddi yn erbyn fy llythyrau. Os bydd i ryw bethau gael eu dweyd i'r pwrpas gan ryw un, neu ryw rai, dan eu henwau priodol, bydd i mi eu hadolygu mewn llythyr ar y diwedd.—D.L.E.

"ADDYSG Y DEUDDEG APOSTOL."

Cafodd yr ysgrif henafol o'r hon y mae y canlynol yn gyfieithad lled lythyrenol, ei chyhoeddi diwedd y flwyddyn ddiweddaf yn Nghaercystenyn, gan Philotheos Bryennios, Archesgob Nicomedia. Y mae y gwreiddiol yn gwneyd i fyny y pummed traethawd mewn cyfrol fechan o ysgrifau Groeg perthynol i Lyfrgell Patriarch Jerusalem yn Nghaercystenyn. Adysgrifenwyd hi gan Gofnodydd o'r enw Leo, yr hwn a orphenodd y gorchwyl dydd Mawrth, Mehefin 11, 1056. Nid ydys etto wedi penderfynu yr amser neu yr amserau y cyfansoddwyd hi. Barna Bryennios ei hun iddi gael ei chyfansoddi rhwng y blynyddau 120 a 160 o oed Crist. [Gweler yr erthygl yn Ymofynydd Mehefin. —Gol.]

"Addysg [yr] Arglwydd trwy y deuddeg Apostol i'r Cenedloedd.

Pen. I.—Dwy ffordd y sydd, ffordd einioes a ffordd angeu, a gwahaniaeth lawer rhwng y ddwy ffordd.

Ffordd Einioes.

Ar un llaw, ynte, ffordd bywyd yw hon: yn gyntaf, ti a geri Dduw, yr hwn a'th wnaeth; yn ail, dy gymmydog fel ti dy hun; a pha bethau bynag y dichon i ti ddymuno na ddygwyddont i ti, tithau dy hun hefyd na wna i arall.

Yn awr addysg yr ymadroddion yma yw hyn: Bendithiwch y rhai sydd yn eich melldithio, a gweddiwch dros eich gelynion, ac ymprydiwch dros y rhai hyny a'ch erlidiant; o herwydd pa ryw ddiolch o cherwch y rhai a'ch carant chwi? Onid yw y Cenedloedd hefyd yn gwneyd yr un modd? Ond chwi, cerwch chwi y rhai a'ch casbant, ac ni fydd i chwi elyn.

Cadw dy hun oddiwrth gnawdol a bydol chwantau. O bydd i rywun dy daraw ar dy rudd ddeheu, tro y llall iddo hefyd, a thi a fyddi yn berffaith; o bydd i ryw un dy gymhell gydag ef filldir, dos gydag ef ddwy; o bydd i ryw un gymmeryd dy gochl, dyro iddo hefyd dy bais; o bydd i ryw un gymmeryd o'r eiddot, na chais yn ol, canys yn wir nis gelli. I bob un a ofyno genyt, dyro ac na chais yn ol, canys i bawb y Tad a ewyllysia fod rhoddion i'w gwneyd o'i radroddion ef.

Gwyn ei fyd yr hwn a roddo yn ol y gorchymyn; canys dieuog yw efe. Gwae yr hwn a ddygo; canys os dyga ryw un, ac efe mewn eisieu, dieuog fydd; ond yr hwn [a ddygo] ac efe heb fod mewn eisieu, a osodir ar brawf, paham y dygodd ac i ba beth, ac wedi ei osod mewn

dalfa, gosodir ef ar brawf yn nghylch y pethau a wnaeth, ac ni cha ddyfod oddiyno hyd oni roddo i fyny y ffyrling ddiweddaf. Ond etto, yn nghylch hyn hefyd dywedwyd: Bydded i'th elusenau chwysu i'th ddwylaw hyd oni wybyddi i bwy y rhoddi.*

Pen. II.—Yn awr yr ail orchymyn o'r addysg [yw]: Na lofruddia, na wna odineb, na haloga wyr ieuainc, na phutteinia, na ladratta, nac arfer ddewiniaeth, na ddyro gyffeiriau, na lofruddia hiliogaeth mewn halogrwydd, ac na ladd un a fo wedi ei eni. Na chwennych eiddo dy gymmydog, na thwng anudon, na ddwg gamdystiolaeth, na lefara ddrwg, na ddwg genfigen. Na fydd ddauddyblyg dy feddwl na dauddyblyg dy dafod; canys dauddybledd tafod sydd fagl angeu. Na fydded dy ymadrodd yn dwyllodrus, nid yn wag, ond yn llawn gan weithred. Na fydd drachwantus na rheibus, nac yn rhagrithiwr, nac yn faleisus nac yn falch. Na chymmer gynghor drygionus yn erbyn dy gymmydog. Na chasha unrhyw ddyn, ond rhai cerydda, a thros rai gweddia, a rhai a geri yn fwy ná dy enaid dy hun.

Pen. III.—Fy mab, cilia oddiwrth bob drwg, ac oddiwrth bob peth tebyg iddo. Na fydd ddigofus, canys digofaint a arweinia i lofruddiaeth; nac yn eiddigeddus, nac yn ymrysongar, nac yn nwydwyllt, canys o'r rhai hyn oll y daw llofruddiaethau.

Fy mab, na fydd drachwantwr, canys trachwant a arweinia i butteindra, nac yn gywilyddus mewn ymadrodd, nac yn eofn dy lygad, oblegyd o'r rhai hyn oll y daw godineb.

Fy mab, na fydd ddewin oddiwrth adar, gan ei fod yn arwain i eilunaddoliaeth, nac yn swynwr, nac yn sér-ddewin, nac yn dán-burydd, nac yn dymuno edrych ar y pethau hyn, canys o'r rhai hyn oll y daw eilunaddoliaeth.

Fy mab, na fydd gelwyddog, gan fod ymarfer celwydd yn arwain i ladrad; nac yn drachwantus am arian, nac yn wag-ogoneddus, canys o'r rhai hyn oll y daw lladradau.

Fy mab, na fydd yn achwyngar, gan ei fod yn arwain i gabledd; nac yn hunan-foddog, nac yn meddwl drwg, canys o'r rhai hyn oll y daw cableddau. Ond bydd addfwyn, gan mai yr addfwyn a etifeddant y ddaear. Bydd hir-ymarhous, a thrugarog, ac yn ddidwyll, ac yn bwyllog, a da, a phob amser yn crynu wrth y geiriau a glywaist. Na ddyrchafa dy hun, ac na ddyro i'th enaid cofndra. Na lyned dy enaid wrth y balch, ond gyda rhai cyfiawn a gostyngedig y byddi yn gynnefin. Yr ymarferion a ddygwyddont i ti, derbynia megys da, gan wybod heb Dduw nad oes dim a ddygwydda.

Pen. IV.—Fy mab, am yr hwn a lefaro air Duw wrthyt, bydd gofus nos a dydd, a thi a'i hanrhydeddi ef megys yr Arglwydd; canys o'r lle y lleferir yr arglwyddiaeth, yno y mae yr Arglwydd. A thi a geisi bob dydd bersonau y saint, fel y caffot dy adnewyddu trwy eu geiriau.

Na chwennych ymraniad, ond ceisia lonyddu y rhai fyddont yn ymryson; ti a ferni yn gyfiawn, byddi ddidderbynwyneb i geryddu am droseddau.

[* Neu, debygwyf: Cadw dy arian yn dy ddwylaw hyd nes y chwysont, yn hytrach nag y gwnei eu rhoddi ar antur.—*Cyf.*]

Na fydd [pan yn gweddio] mewn dau feddwl pa un a fydd ai peidio.

Na fydd un yn estyn y dwylaw allan er cymmeryd, ac yn eu cau er rhoddi; o bydd genyt rywbeth, trwy dy ddwylaw dy hun y rhoddi bridwerth am dy bechodau. Na fydd bryderus i roddi, ac wrth roddi nac achwyn; canys ti a gei wybod pwy yw teg ad-dalydd y gwobrwy. Na thro ymaith yr hwn sydd mewn angen, ond ti a rani bob peth yn gyffredin â'th frawd, ac ni ddywedi mai dy eiddo dy hun ydynt; canys os ydych gydgyfranogion yn yr hyn sydd anfarwol, pa faint mwy mewn pethau marwol?

Na chymmer dy law oddiwrth dy fab neu oddiwrth dy ferch, ond ti a ddysgi iddynt o'u hieuenctid i fyny ofn Duw.

Na ddyro orchymynion yn dy chwerwder ar dy gaethwas neu lawforwyn, y rhai a ymddiriedant yn yr un Duw, rhag iddynt mwyach beidio ofni y Duw sydd dros y ddau; canys nid yw efe yn dyfod i alw gyda derbyn wyneb, ond at y rhai y mae yr yspryd wedi barotoi. A chwithau gaethweision ymostyngwch i'n [Bryennios yn awgrymu *i'ch*] harglwyddi, megys cysgod o Dduw, mewn gwyleidd-dra ac ofn.

Ti a gashei bob rhagrith, a phobpeth nad yw yn rhyngu bodd i'r Arglwydd. Na chilia oddiwrth orchymynion yr Arglwydd, ond gwarchod dros yr hyn a dderbyniaist, heb ychwanegu at na thynu oddiwrth.

Yn yr Eglwys ti a gyffesi dy droseddau, ac na ddos i'th le gweddi mewn cydwybod ddrwg.

Dyma ffordd einioes.

Ffordd Angeu.

Pen. V.—Yn awr, ffordd angeu yw hon: yn gyntaf oll, y mae yn ddrwg a llawn dinystr, llofruddiaethau a godinebau, chwantau, putteindra, lladradau, eilunaddoliadau, cyfrwysdra swyngyfareddol, cyffeiriaethau, yspeiliadau, camdystiolaethau, rhagrithiadau, deublygrwydd calonau, twyll, rhodres, drygioni, hunan-foddogrwydd, trachwant, cywilyddus-siarad, eiddigedd, haerllugrwydd, balchder, ymffrost, erlid y daionus, cashau gwirionedd, caru twyll, heb adnabod gwobr cyfiawnder, nid yn glynu wrth yr hyn sydd dda, nac wrth farn gyfiawn, yn gwylied nid er daioni, ond er drwg, oddiwrth y rhai y mae addfwynder a dyfalbarhad yn mhell, yn chwilio am ad-daliad, heb dosturio wrth y dyn tlawd, nid yn llafurio dros y rhai sydd wedi ymdreulio allan, heb ei adnabod ef yr hwn a'u gwnaeth, llofruddion plant, rhai yn llygru gwaith dwylaw Duw, troi ymaith yr hwn sydd mewn angen, yn gorluddedu y gormesedig, amddiffynwyr y cyfoethog, barnwyr dddeddf y tlodion, pechaduriaid yn mhob ystyr; gwareder chwi, blant, oddiwrth y rhai hyn oll.

[Diwedd Addysg y Ddwy Ffordd.]

Rhybudd i'r Gwan.

Pen. VI.—Gwel na fo i neb dy arwain ar gyfeiliorn o'r ffordd hon o'r addysg, gan ei fod yn dy addysgu ar wahan oddiwrth Dduw.

Oblegyd os wyt yn alluog i ddwyn holl iau yr Arglwydd, ti a fyddi berffaith; ond os nad ydwyt yn alluog, yr hyn a allot hyny gwna.

Bwydydd Glan ac Aflan.

Yn awr yn nghylch bwyta, yr hyn ydwyt yn alluog gwna, ond rhag yr hyn a aberthwyd i eilunod bydd yn dra gochelgar; canys addoliad duwiau meirw ydyw.

Bedydd.

Pen. VII.—Yn awr, yn nghylch bedydd, fel hyn y bedyddiwch chwi, gan yn gyntaf ddywedyd yr holl bethau hyn, bedyddiwch chwi i enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Santaidd mewn dwfr bywiol [h.y., rhedegog].

Ond pan nad oes genyt ddwfr bywiol, bedyddia di i ddwfr arall; ac os na elli mewn oer, mewn twymn. Ond os heb un o honynt, tywallt ddwfr ar y pen deirgwaith i enw Tad, a Mab, ac Yspryd Santaidd.

Yn awr, cyn y bedydd, bydded i'r hwn a fedyddia, a'r hwn a fedyddir ymprydio yn flaenorol, ac ereill os bydd rhai a allant. Yn awr, ti a erchi iddo ef a fedyddir i ymprydio ddiwrnod neu ddau yn mlaen llaw.

Ymprydio.

Pen. VIII.—Yn awr, na fydded eich ymprydiau fel eiddo y rhagrithwyr; canys y maent hwy yn ymprydio ar yr ail o'r wythnos a'r pummed, ond ymprydiwch chwi ar bedwerydd dydd a'r Darpar ddydd [h.y., Gwener].

Gweddi.

Na weddiwch ychwaith megys y rhagrithwyr, ond megys ag y gorchymynodd yr Arglwydd yn ei Efengyl, fel hyn y gweddiwch chwi:—

"Ein Tad yr hwn wyt yn y nef, santeiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys megys yn y nef, felly ar y ddaear, ein dyddiol fara dyro i ni y dydd hwn, a maddeu i ni ein dyled fel y maddeuwn ninau hefyd i'n dyledwyr, ac na ddwg ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag y drwg, canys eiddot ti yw y gallu a'r gogoniant trwy yr oesoedd."

Tair gwaith y dydd fel hyn y gweddiwch chwi.

Y Cymmun (*Eucharist*).

Pen. IX.—Yn awr yn nghylch y cymmun [neu aberth diolchgarwch] fel hyn y diolchwch. Yn gyntaf, yn nghylch y cwpan:—

"Diolchwn i ti, ein Tad, am santaidd winwydden Dafydd dy was, o'r hon y rhoddaist i ni wybodaeth trwy Iesu dy was; i ti y gogoniant trwy yr oesoedd."

Ac yn nghylch y darn drylliedig [o'r bara]:—

"Diolchwn i ti, ein Tad, am y bywyd a'r wybodaeth o'r rhai y rhoddaist i ni hyspysrwydd trwy Iesu dy was; i ti y gogoniant trwy yr oesoedd.

"Megys y cafodd y darn drylliedig hwn ei wasgaru ar y bryniau, ac wedi ei ddwyn yn nghyd a aeth yn un, felly bydded i'th Eglwys gael ei dwyn yn nghyd o derfynau y ddaear i'th deyrnas di; canys eiddot ti yw y gogoniant a'r gallu trwy Iesu Grist trwy yr oesoedd."

Yn awr, na chaffed neb fwyta nac yfed o'ch cymmun, ond y rhai a fedyddiwyd i enw [yr] Arglwydd; o herwydd am hyn y dywedodd yr Arglwydd: "Na roddwch y peth sydd santaidd i'r cŵn."

Pen. X.—Yn awr ar ol y cyflawn dderbyniad, diolchwch fel hyn:

"Yr ydym yn diolch i ti, Dad Santaidd, am dy enw santaidd, lle y pabellaist yn ein calonau, ac am y wybodaeth, a'r ffydd, a'r anfarwoldeb, am y rhai y rhoddaist i ni wybodaeth trwy Iesu dy was; i ti y gogoniant trwy yr oesoedd.

"Tydi, Deyrn Hollalluog, a greaist bob peth er mwyn dy enw, bwyd a diod a roddaist i ddynion er mwyniant fel y diolchont i ti, ac i ni y rhoddaist yn rhad, fwyd a diod ysprydol, a bywyd tragywyddol trwy dy was. Yn anad dim diolchwn i ti am dy fod yn alluog; [i ti] y gogoniant trwy yr oesoedd.

"Cofia, Arglwydd, dy Eglwys, i'w gwaredu rhag pob drwg, a'i pherffeithio yn dy gariad; a dwg hi yn nghyd o'r pedwar gwynt, y santeiddiedig i'th deyrnas, y rhai a barotoaist iddi, canys eiddot ti yw y gallu, a'r gogoniant trwy yr oesoedd.

"Deued gras ac eled y byd hwn ymaith.

"Hosanna i Dduw Dafydd.

"Os oes rhywun yn santaidd, deued; os oes rhywun heb fod, edifarhaed; *maranatha.* Amen."

Yn awr, i'r proffwydi yr ymddiriedwch i roddi diolch gymmaint ag yr ewyllysiont.

Gwir a Gau Athrawon.

Pen. XI.—Pwy bynag gan hyny a ddaw ac a ddysgo yr holl bethau hyn, y rhag-grybwylledig, derbyniwch ef; ond o bydd efe yr hwn a addysgo, ei hun wedi gwyrdroi ac yn dysgu athrawiaeth arall i ddinystrio [hon], na wrandewch ef; ond [os] i ychwanegu cyfiawnder a gwybodaeth o'r Arglwydd, derbyniwch ef megys [yr] Arglwydd.

Apostolion a Phroffwydi.

Yn awr, yn nghylch yr apostolion a phroffwydi yn ol arfaeth yr efengyl, fel hyn y gwnewch:

Yn awr, caffed pob apostol a ddelo atoch chwi, ei dderbyn megys [yr] Arglwydd; ac na chaffed aros un diwrnod; ond os yr erys efe dri diwrnod, gau broffwyd yw.

Yn awr, na fydded i'r apostol pan ddelo allan gymmeryd dim ond bara [i barhau] hyd oni fyddo wedi ei lettya; ond os gofyn efe arian, gau broffwyd yw.

Ac na phrofwch bob proffwyd a fyddo yn llefaru yn yr yspryd, ac na wahaniaethwch; canys pob pechod a faddeuir, ond y pechod hwn ni faddeuir. Ond nid pob un a lefaro yn yr yspryd sydd broffwyd, oddieithr fod ganddo ffyrdd [yr] Arglwydd o fyned oddiamgylch. Oddiwrth ei ffyrdd o fyned oddiamgylch, gan hyny, yr adwaenir y gau broffwyd a'r proffwyd. A phroffwyd yn offrymu [mae y text yma wedi ei lygru] bwrdd yn yr yspryd, ni fwyty o hono, oddieithr yn wir mai gau broffwyd yw efe.

Yn awr pob proffwyd a fo yn dysgu y gwirionedd, os na chyflawna efe yr hyn a addysgo, gau broffwyd yw. Ond pob proffwyd profedig, ymddiriedol, yn gweithredu gyda llygad at ddirgelwch yr Eglwys yn y byd hwn, ond nid yn dysgu ereill i wneuthur cymmaint ag a wna efo ei hun, na chaffed ei farnu genych chwi; oblegyd y mae ei farn ef gyda Duw; o herwydd mewn cyffelyb fodd y gwnaeth y proffwydi gynt.

Yn awr, pwy bynag a ddywedo yn yr yspryd, "Rhoddwch i mi arian neu ryw dda arall," arno ef na wrandewch; ond os dywed efe "Rhoddwch," o berthynas i ereill mewn angen, na farned neb hwnw.

Pen. XII.—Yn awr bydded i bob un a ddelo yn enw [yr] Arglwydd gael ei dderbyn, ac yn ol llaw wedi ei brofi, chwi a'i hadnabyddwch ef; canys efe a wisga ddealldwriaeth ar y de a'r aswy. Os yw efe sydd yn dyfod yn grwydryn, cynnorthwywch ef hyd ag y galloch; ond nid erys efe gyda chwi onid dau neu dri diwrnod, o bydd angen. Yn awr, os, ac efe yn grefftwr, yr ewyllysia ymsefydlu gyda chwi, gweithied droso ei hun a bwytaed; eithr os na fydd ganddo efe grefft, yn ol eich dealldwriaeth darperwch ryw fodd trwy yr hwn ni chaffo Cristion fyw yn eich mysg yn segur. Yn awr, os na fydd efe yn ewyllysio gwneyd hyn, Cristfasnachwr yw; gochelwch y cyfryw.

Pen. XIII.—Yn awr, y mae pob gwir broffwyd, yr hwn a ewyllysio ymsefydlu gyda chwi, yn deilwng o'i fwyd. Yr un modd y mae gwir athraw yn deilwng, yntau hefyd, megys y gweithiwr, o'i fwyd. Felly pob blaenffrwyth o gynnyrchion gwinwryf a llawrdyrnu, ac o ychain a defaid, ti a gymmeri ac a roddi i'r proffwydi; canys hwy ydynt eich archoffeiriaid.

Yn awr, o byddwch heb broffwyd, rhoddwch i'r tlodion.

O byddi yn gwneyd crasiad o fara, cymmer y blaenffrwyth a dyro yn ol y gorchymmyn. Yr un modd, pan agori ystenaid o win neu olew, cymmer y blaenffrwyth a dyro i'r proffwydi; ac o arian a gwisgoedd a phob meddiant, cymmer y blaenffrwyth, megys ag y byddo da yn dy olwg, a dyro yn ol y gorchymmyn.

Addoliad Cyhoeddus.

Pen. XIV.—Yn awr, ar bob Arglwydd-ddydd yr Arglwydd (*Lord's Day of the Lord*) pan fyddoch wedi ymgynnull yn nghyd, torwch fara a

diolchwch, wedi cyfaddef eich pechodau, fel ag y bo eich aberth yn bur.

Yn awr, na fydded i neb a chanddo ymrafael â'i gydymaith ymgynnull hyd nes y cymmoder hwy, fel na fyddo i'ch aberth gael ei wneyd yn aflan; o blegyd dyma yr [aberth] y dywedwyd am dano gan [yr] Arglwydd: "Yn mhob lle ac amser rhoddwch i mi offrwm pur; canys Brenin mawr ydwyf fi, medd [yr] Arglwydd, a rhyfeddol yw fy enw yn mhlith y Cenedloedd."

Swyddogion Eglwysig.

Pen. XV.—Dewiswch gan hyny i chwi eich hunain, trwy ddangosiad dwylaw, esgobion a diaconiaid teilwng o'r Arglwydd, dynion addfwyn ac nid yn ariangar, ac yn gywir a phofedig; canys hwy hefyd a weinyddant i chwi wasanaeth cyhoeddus y proffwydi a'r dysgawdwyr. Am hyny na ddiystyrwch hwynt; o blegyd hwynthwy yw eich dynion anrhydeddus gyda y proffwydi a'r dysgawdwyr.

Yspryd yr Efengyl.

Yn awr, ceryddwch y naill y llall nid mewn digofaint, eithr mewn heddwch, megys ag y cewch yn yr Efengyl; ac wrth yr hwn a ymddygo yn feius yr erbyn ei gydymaith, na lefared neb, ac na wrandewch trwy eich cydsyniad eich hunain, hyd oni edifarhao.

Yn awr, eich deisyfiadau a'ch elusenau, a'ch holl weithredoedd felly gwnewch, megys ag y cewch yn Efengyl ein Harglwydd.

Dyfodiad yr Arglwydd.

Pen. XVI.—Gwyliwch am eich bywyd; na ddiffodder eich lampau; ac na laeser eich lwynau, eithr ymbarotowch; canys ni wyddoch yr awr yn yr hon y daw ein Harglwydd. Ond yn aml ymgynnullwch yn nghyd, gan ymofyn y pethau hyny a berthynant i'ch eneidiau; o blegyd ni ddaw i chwi ddim budd o holl amser eich ffydd, os na pherffeithir chwi yn y tymhor diweddaf. Canys yn y dyddiau diweddaf y gau broffwydi a'r halogwyr a amlheir, a'r defaid a droir yn fleiddiaid, a chariad a droir yn gasineb; o herwydd tra yr ychwanega annghyfraith, dynion a gashant y naill y llall, ac erlidiant a bradychant.

Ac yna yr ymddengys y Byd-dwyllwr, megys Mab Duw, a gwna arwyddion a rhyfeddodau; a'r ddaear a fradychir i'w ddwylaw, ac efe a wna bethau ffiaidd, y rhai ni ddygwyddasant er dechreuad y byd.

Yna y bydd i'r greadigaeth ddynol ddyfod i'r brofedigaeth daullyd, a llawer a dramgwyddir ac a drengant, ond y rhai a barhant yn eu ffydd a achubir odditan y felldith ei hun.

Ac yna yr ymddengys arwyddion y gwirionedd; yn gyntaf, arwydd o daeniad allan yn y nef; yna, arwydd o lais udgorn; a'r trydydd, adgyfodiad meirw; nid, fodd bynag, o honynt oll, ond fel y dywedwyd: "Yr Arglwydd a ddaw a'r holl Saint gydag ef."

Yna y gwel y byd yr Arglwydd yn dyfod ar gymmylau y nef."

Aberdar. JENKIN HOWELL.

"RHAID FOD GWAHANOL SECTAU."

(*Cais at ateb "Ymofynydd Penfro," gwel rhifyn Mehefin* 127—130.)

Nid oedd genyf y meddwl lleiaf pan yn ceisio anog fy ngwrandawyr yn Rhydyparc i ddyledswydd a gweithredoedd da y buasai neb yn cael ei arwain i dybied fy mod am gyfeirio eu myfyrdodau at y pynciau anorphen hyny y dywed Milton yn ei Goll Gwynfa (Llyfr II.) fod yr angylion yn Pandemonium yn eu trin—

> "Draw ar fryn,
> O uwch feddyliau, gan resymu yn gryf
> Yn nghylch Rhagluniaeth, rhagwybodaeth, 'wyllys,
> A thynged, tynged gaeth, ac 'wyllys rydd,
> A rhagwybodaeth hollol, heb gael pen
> Nes colli ar grwydr mewn dyrysni trwch.
> —I. D. Ffraid, 681—9.

"In wandering mazes lost." Ond ymylir holl amcanion dyn gan ewyllys Duw, a gwireddir o hyd yr hen ddiareb, "Man proposes, God disposes."

Nid wyf yn cofio i mi ddefnyddio y geiriau "Rhaid fod gwahanol sectau," ac yr wyf yn tueddu i gredu na wnaethum; ond gan nad oedd genyf yr un gair yn ysgrifenedig, ni fyddaf yn rhy benderfynol ar y mater. Mae yn amlwg fod rhediad fy ymadroddion wedi peri i rai i dybied hyny, a chyn y terfynont ddarllen y llinellau yma, dichon y dywedant fy mod yn yr un man etto. Fel hyn y byddaf fi yn arfer credu, y dylem bawb yn onest ac yn gydwybodol chwilio am y goleuni ac yna dylyn y goleuni a welwn. Nid yw dynion erioed *wedi* cael yr un olwg ar y goleuni a'r gwirionedd, nid ydynt *yn* ei gael *yn awr*, ac nid wyf yn gwybod am un rheswm i gredu y deuant yn fuan i weled pob peth lygad yn llygad yr un fath, a hyny yn gymmaint am fod amrywiaeth yn yr "optics seeing" yn peri fod amrywiaeth yn yr "objects seen." Edrycher ar yr un gwrthddrychau trwy wydrau ac heb wydrau, trwy wydrau gleision neu gochion neu felynion, ac fe welir fod y gwrthddrychau yn amrywio. Nid yn y gwrthddrychau wrth gwrs y mae y gwahaniaeth. Fe all dau berson fod yn hollol onest yn eu hymchwiliad am y gwirionedd, ac wedi'r cwbl fethu cydweled yn hollol. Amrywiaeth yw rheol y bydysawd ac nid unrhywiaeth, a dyledswydd pob un yw ceisio tyfiant gonest yn ol ei natur. Yr wyf yn cofio clywed un yn dywedyd unwaith fod rhai wrth natur yn tueddu at Galfiniaeth; felly, os bydd dygiad i fyny yn tueddu yn yr un cyfeiriad, nid yw yn anhawdd penderfynu beth fydd y canlyniad. Tuedd rhai yw cymmeryd golwg hapus ar bob peth, tra y cawn ereill, fel dyn yn y clefyd melyn, yn gweled pob peth mewn lliwiau annaturiol.

Yn awr, nid yw hyn oll yn golygu nad oes wahaniaeth pa syniadau fo dyn yn goleddu. Gweled yr ydym yr awrhon bawb o honom, mewn rhan yn unig, a'r peth tebyg yw nad yw yr oll o'r gwirionedd gyda neb

o honom. Yr elfen bwysig i bawb yw, A ydym yn onest i'r goleuni uwchaf a wyddom? Mae credo yn bwysig, a dylem bawb geisio am y gredo oreu y gallwn gael; ond ein credo ein hunain yn unig sydd yn bwysig i ni, ac nid credoau ystrydebedig yr "oesoedd tywyll." A ydyw ein credo yn golygu yr hyn a gredwn â'r galon ac â'r enaid? Un pechod mawr yn y 19eg canrif yw anffyddlondeb i reswm a chydwybod, yr hyn a elwir gan y Sais yn *insincerity*. Yr wyf yn credu y gall yr Undodwr a'r Trindodwr, yr Arminiad a'r Calfiniad, y Pagan a'r Cristion, os yn onest, fod yn dderbyniol gyda Duw, ac os yn anonest fod yn wrthodedig ganddo. Anffyddlondeb i'r "wybodaeth well," i'm tyb i, yw "y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan." Mae yr hwn sydd yn argyhoeddedig o wirionedd Undodiaeth yn myned i'r "wrong train" wrth fwrw ei goelbren gyda'r Trindodiaid, am ei fod wrth hyny, dybygwn, yn gwneuthur yr hyn nas gall ei gydwybod ei gymmeradwyo. I'w Arglwydd ei hun, fodd bynag, y mae i sefyll neu i syrthio.

Nis gwn a fydd yr eglurhad hwn yn ddigon ai ni fydd; os na, ymofyner yn mhellach, a bydd yn hyfrydwch genyf ychwanegu. Nid wyf yn credu y bydd Rhagluniaeth yn derbyn neu wrthod dyn ar sail ei gredo yn unig, ond yn hytrach ac yn fwy o lawer ar sail y defnydd a wnaeth o'r manteision a'r cyfleusderau a gafodd yn ystod ei fywyd. Nid yw y tad daearol yn caru ei blentyn dwy flwydd, er heb allu llefaru yn groew, yn llai nâ'r plentyn 12, yn enwedig os bydd yn gweled calon y bach yn dangos ei bod yn yr iawn le ac yn gweithio yn yr iawn ffordd; ac nid wyf yn credu llai na fydd yr Eskimo a'r Fligead sydd wedi bod yn ffyddlon i'r goreu a wyr yn sefyll mor uchel yn ngolwg y Tad Goreu â Christion goleuedig y 19eg canrif, sydd wedi bod yn ffyddlon i'w oruchwyliaeth, ac yn uwch nâ'r hwn sydd wedi bod yn anffyddlon. Yn y ddammeg cafodd perchen y ddwy dalent a ennillodd ddwy atynt yr un ganmoliaeth â pherchen y pump a ennillodd bump atynt:

> "Thy sun-tanned brother in the glowing East
> Bends not the knee to senseless blocks and beasts,
> But to a Spirit: and his huge gilded idols
> Are but the clumsier spelling of a name
> Which no man spells correctly: he believes
> In his own way, what you believe in yours."

R. J. J.

Y MAE y Dr. Johnson yn adrodd hanesyn tarawiadol am dad a phlentyn oeddynt yn teithio dros oehr mynydd serth a pheryglus. Yr oedd y tad yn myned yn gyntaf a'r plentyn yn dylyn. Yn mhen enyd gwaeddodd y bychan allan—"Nhad, chwiliwch am lwybr dyogel—yr wyf fi yn eich canlyn." Beth po byddai pob Cristion yn cymmeryd yr awgrym. Cofiwch fod Cristionogion iouainc a phlant yn canlyn, AM hyny teithiwch lwybrau dyogel.—*Beecher.*

NODYNAU GWASGAROG.

Dwy yn malu.—(Mat. xxiv. 41.) Darfu i mi dalu ymweliad ychydig yn ol â thŷ hen foneddwr parchus yn Llanwyno, pan y gwelais yn ymyl y drws y tu allan faen uchaf hen felin-law, o'r fath ag y cyfeirir ato wrth bob tebyg yn yr adnod uchod, a'r fath ag oedd mewn arferiad yn ein gwlad ni cyn amser melinau gwynt a melinau dwfr. *Quern* yw yr enw Seisnig, a *breuan* yw yr hen enw Cymreig. Yr oedd dau faen iddi, ac yn yr uwchaf yr oedd dau dwll, un yn y canol, a'r llall ryw un rhan o dair o'r ymyl; yn y twll olaf wrth bob tebyg yr oedd pren, wrth yr hwn yr oedd y maen yn cael ei droi, hanner cylch ar y tro gan y ddwy oedd yn malu. Yn y twll canol y dodid y llafur. Darganfyddwyd y maen a welais i ar dir y boneddwr oeddwn i'n talu ymweliad ag ef, a mesurai tua 18 modfedd yn groes. Yn Ngeiriadur Richards, Llangrallo, dywedir fod 'breuan' yn deilliaw o *briwo*, to reduce to powder. Dywedir yn mhellach fod gan yr hen Gymry felinau a weithient heb wynt na dwfr, ac heb gynnorthwy na dyn nac anifail, unwaith y gosodid hwy ar waith. Dywed Clarke yn ei "Travels:" Braidd yr oeddym wedi myned i mewn i'r annedd-dŷ a fwriedid i ni yn Nazareth, pan y gwelsom ddwy fenyw yn parotoi 'blawd,' er gwneuthur bara ini, yn ol arferiad y wlad. Eisteddai y menywod ar y llawr, y naill ar gyfer y llall; a rhyngddynt yr oedd dau faen *flat*. Yr oedd twll yn nghanol y maen uwchaf, yn yr hwn y gosodid y blawd, ac ar yr ymyl yr oedd *handle* (carn) o bren, i'w droi o amgylch. Yr *handle* hwn yr oedd y naill yn ei wthio at y llall yn barhaus, ac felly yn troi y maen uwchaf ar y maen isaf ac yn malu yr ŷd, tra â'r llaw aswy yr oeddynt yn barhaus yn llanw yr ŷd i mewn.—T.C.U.

Sectariaeth.—Nid yw yr yspryd sectarol yn gyfyngedig i'n gwlad ni, nac i Gristnogion, fe'i ceir yn mhlith crefyddwyr ereill, nad ydynt yn proffesu eu hunain yn Gristnogion. "Dyna foncyff iawn i dân uffern!" ebe Wahabëad, wrth weled Hindw corffog yn pasio heibio iddo. A dyma enghraifft arall: "Pan oedd Abd-el-Lateef, Wahabëad, un dydd yn pregethu i bobl y Riad, adroddodd draddodiad yn ol yr hon yr oedd Mohamed wedi mynegu y buasai ei ganlynwyr yn ymranu i driugain a thair ar ddeg o sectau, fod triugain a deuddeg o'r cyfryw yn arfaethedig i dân uffern, a dim ond un i Baradwys. 'A pha beth, O, genad Duw, ydyw nodau y sect hapus hono, i'r hon yn unig y sicrheir meddiant o Baradwys?' I hyny atebodd Mohamed, 'Y cyfryw hyny ydynt ag a fyddant yn mhob peth yn gydymffurfiol â mi ac â fy nghyfeillion.' 'A hyny,' ebe Abd-el-Lateef, gan ostwng ei lais i dôn o ddwfn argyhoeddiad, 'hyny, trwy drugaredd Duw, ydym ni, pobl y Riad.'" Beth ddywedet ti, ddarllenydd, pe clywsit ryw Abd-el-Cymreig yn cyhoeddi o'r pwlpud nad oes nefoedd i neb ond i fynychwyr capelau Undodaidd a darllenwyr Yr Ymofynydd!—Gwel *Spencer's Sociology*, p. 292.—M. P. G.

Manion a Hanesion.

Mae profiad oesoedd lawer yn dangos y gall dynion fod yn barod i ymladd hyd at farw, ac i erlid yn ddidrugaredd, o blaid crefydd nad ydynt yn ei deall, ac ar orchymmyn yr hon y maent o hyd yn troseddu. —*Macaulay.*

Meddai Dr. Parr, offeiriad, wrth Undodwr, "Rhaid i chwi lwyddo, mae y llyfr o'ch tu."

DO BOTH.

They pray the best who pray and watch,
They watch the best who watch and pray;
They hear Christ's finger on the latch,
Whether he comes by night or day.
Whether they guard the gates and watch,
Or, patient, toil and pray and wait,
They hear his finger on the latch,
Whether he early comes, or late.

Christian Life.

Mae y bregeth a draddodwyd gan y Parch. Stopford Brooke, M.A., o flaen y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain yn creu cryn lawer o gynhwrf yn ngwersyll rhai o'r enwadau. Ceisiodd rhai ymosod trwy y *Christian World*, lle'r oedd crynodeb o honi wedi ymddangos, ond nid oedd golygydd y papur hwnw am gael dadl. Ceir dwy bregeth yn y *Cambrian Daily Leader*, a gyhoeddir yn Abertawe, am Mehefin 18fed, yn cymmeryd y pwnc i fyny yn wresog iawn, y naill gan J M. Gibbon (A.), oddiar Rhuf. ii. 16,a'r llall gan T. Williams (B.), oddiar Col.i. 15, "Yr hwn yw delw y Duw anweledig." Gwnawn adolygiad pellach mewn rhifyn dyfodol.

Cafodd dau fachgen yn yr Ysgolion Cenedlaethol yn Sneldhurst eu fflangellu ychydig yn ol yn ngwydd eu cyd-ysgolheigion, yr offeiriad a'i chwaer-yn-nghyfraith, am y drosedd o fyned i gapel Annghydffurfiol.

BEDDARGRAFFIADAU.

Y Parch. Edward Evans, Toncoch.—In memory of the Revd. Edward Evans of Toncoch, who died 21st of June, 1798, aged 82 years. Also of Mary, Relict of the said Edward Evans, who died August 8, 1824, aged 91 years.

[Yn mynwent hen Eglwys y Plwyf yn Aberdar.]

Dyfynir a ganlyn o'r *Red Dragon* am am *June*: A correspondent has just met with the following record, in a Welsh newspaper of July, 1798:—"Died at Aberdare, the Rev. Edward Evans, the much esteemed minister of a society of Protestant Dissenters in that place: one of the most eminent of the order of Ancient British Bards, and no mean performer with the harp. Commonly known among his bardic admirers as Iorwerth ab Ioan [? Ivan] o Forganwg."

Y Parch. D. Davis, Castellhywel.—"Y maen hwn a gyfodwyd ar draul un o'r ysgolheigion er coffadwriaeth am hen ysgolfeistr, y Parchedig David Davis, o Gastellhowell, yr hwn a ffyddlon wasanaethodd Dduw fel gweinidog ei air sanctaidd yn agos driugain mlynedd yn Llwynrhydowen,Ciliau,Galltyplacca a Mydroilyn yn Ngheredigion, a Phenrhiw yn Sir Gaerfyrddin. Bu farw Gorphenaf 3ydd, 1827, mewn parch ac anrhydedd, yn llawn o obeithion a serchiadau nefolaidd, heddwch, cariad a llawenydd Cristionogol, yn 83 oed. Ei lwch a orphwys yma mewn gostyngedig obaith am wynfydedig adgyfodiad y cyfiawn."—Adysgrifenwyd yn mynwent Llanwenog, gan D. E.

PRIODAS.

Ebrill 18fed, yn Eglwys Blwyfol Llansawel, gan y Parch. C. Chidlow,Vicar, Mr. Thomas Jones, Cwmhowel, â Miss Anne Davies, Clynbwch, Llanfihangel, Rhos-y-corn.

Marwgofion.

Ebrill 14eg, yn y flwyddyn hon, Mr. Hezekiah David, Porthcawl, yn 80 mlwydd oed. Bu yr hen wr parchus a ffyddlawn hwn yn dal cyssylltiad â'r achos Undodaidd yn y Nottais am lawer o flynyddoedd.

Ebrill 28, Gwenllian, gweddw y rhaggrybwylledig Hezekiah David, yn 80 mlwydd oed. Claddwyd y ddau yn mynwent eglwys Drefnewydd. Bydd gan rai o'n gweinidogion gofion cynhes am yr hen bobl yma.

Mai 9, yn 20 mlwydd oed, Eleanor, merch henaf Dafydd a Mary Jones, Glyn Llwyd, a chwaer i Mr. J. D. Jones, myfyriwr gynt yn Ngholeg Caerfyrddin. Tra wrth ei galwedigaeth fel gwniadyddes yn Nghaerdydd y gauaf diweddaf, cafodd anwyd trwm. Dychwelodd adref gan obeithio y gwnai ychydig orphwysdra a newid awyr ei llwyr adfer i'w hiechyd blaenorol, ond parhau i raddol wanhau a wnaeth; ac er gwaethaf ymdrech ei meddyg, a thynerwch mawr ei rhieni a'i brawd a'i chwaer, daeth bywyd yn ormod baich iddi. Hi oedd ddynes ieuanc addawol, ac aelod ffyddlon o Ysgol Sul a Chwrdd y Cribin. Claddwyd hi yn mynwent Capel-y-Groes. Ddydd ei hangladd gweinyddwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan J. D. a W. D., ac yn y capel ac ar lan y bedd gan R. C. J.

Fel llanw'r môr, yn myn'd a d'od,
Yw bywyd dyn, tra yma'n bod;
Ond angeu ddaw, yn genad Duw
I'n dwyn i'r nef dros fyth i fyw.
Pa'm wylwch am yr eneth fad?
Cewch etto 'i chwrdd yn nhy eich Tad.
Ar lan ei bedd, edrychwch draw
I'r wlad sydd fry uwch poen a braw!

Mai 18, o glefyd y galon, yn 81 oed, David Davies, Llwynifan, Cellan. Er yn hen yr oedd ar y cyfan yn cael iechyd da, ac yr oedd yn feddianol ar gyfansoddiad cryf. Byr hefyd oedd ei gystudd olaf, ond etto'n ddigon maith i derfynu ei fywyd yma. Yr oedd yn un a gerid ac a berchid yn fawr gan ei gymmydogion. Yr oedd yn un o hen *supporters* eglwys fechan Caeronen. Fel dyn call ni byddai un amser yn hoff o ddywedyd llawer am y marw, ac felly nid gweddus i mi wneyd hyn yn bresenol. Gadawodd wyth o blant, mewn amgylchiadau da, a llawer o gyfeillion a pherthynasau i alaru ar ei ol. Nid yn aml y gwelir torf mor luosog mewn angladd ag a ddaeth yn nghyd ar ddydd ei gladdedigaeth. Gosodwyd ef yn ei wely pridd yn mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, oddiar Diar xxii. 2.

Mai 18, yn 36 mlwydd oed, Mary, priod James Jones, Moelhedog, Llandyssul, a chladdwyd hi yn mynwent Pantdefaid y dydd Mercher canlynol. Pregethodd gweinidog y lle ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod am flynyddau yn gwanychu, ond etto, trwy ymdrech mawr wedi gallu bod uwchben ei thraed hyd o fewn i ddiwrnod neu ddau i ddydd ei marwolaeth. Heblaw priod i alaru ar ei hol, gadawodd hefyd naw o blant, yr henaf dan bumtheg oed i fod mwyach yn amddifad o ofal a thynerwch mam, ond ni obeithiwn, er hyny, y bydd eu dyfodol yn llwyddianus a dedwydd.

Mehefin 8, yn 43 ml. oed, Elizabeth Lewis, Mount Pleasant, Llaniltern, ger Caerdydd, Y dydd Mercher canlynol, daethpwyd â hi gyda'r *train* i'w chladdu yn nghladdfa'r tylwyth yn Pantdefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn nith i'r diweddar Barchedig John Jones, gweinidog yr Undodiaid yn Heolyfelin, Aberdar. Mae'n deilwng i'w gofnodi i Mrs. Lewis, a'i thad John Enoch, a dau o'i brodyr Thomas a David Enoch, farw ar ddydd Sul.

Mehefin 11, yn 85 mlwydd oed, Abraham Jones, Graig, ger Talgareg, Llanarth. Claddwyd ef yn Bwlchyfadfa, y dydd Gwener canlynol. Pregethodd y Parch. T. T., gweinidog Pantdefaid, ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o gynnulleidfa'r Bwlch er ys meithion flynyddau, a pharhaodd yn ffyddlon hyd y diwedd. Gadawodd weddw oedranus, 85 mlwydd oed, i alaru ar ei ol. Oddieithr ei dad a'i fam, nid oes gan yr Ysgrifenydd gof am neb yn gynt nag Abraham a Mary.

Mehefin 12, Mr. Thomas Williams, Bedwlwyn, Cwmaman, Aberdar, yn ei 70 mlwydd oed, wedi bod yn ddyoddefydd fwy neu lai o hyd oddiar yn 20ain oed oddiwrth yr asthma. Yr oedd wedi bod yn aelod am hir flynyddau yn yr Hen-Dy-Cwrdd, ac er nad oedd er ys rhai blynyddau wedi gallu presenoli ei hunan gyda'r brodyr yno, etto dygai fawr sêl dros yr achos. Yr oedd yn ddyn tawel, diniwed, a pharchus gan bawb a'i hadwaenai; yn onest a *straightforward* yn ei ymwneyd â'r byd, ac yn garedig o galon lle y gwelai eisieu. Bydded Priod y weddw a Thad yr amddifaid yn dyner o'r rhai sydd wedi eu gadael ar ol. Claddwyd yn mynwent hen eglwys plwyf Aberdar.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—W.G., Pontyberem; L.E., Mountain Ash; M.T., Llangors.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID DEHEUBARTH CYMRU AC AGORIAD CAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL,

A gymmer le ar ddyddiau Iau a Gwener, Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd. Y Cyfarfod yn dechreu nos Iau am 7 o'r gloch. Y Cyfarfod dranoeth am 10. Pregeth Gymraeg gan y Parch. Thos. Thomas, a phregeth Saesneg gan y Parch. H. Ierson, M.A. Am 2, Cyfarfod Cyhoeddus yn y capel, pryd y rhoddir anerchiadau ar wahanol bynciau gan y rhai canlynol yn mhlith ereill:—Y Parchn. J. Davies, R. C. Jones, W. Parry, J. G. Evans, T. Ll. Jones, W. Davies, Dr. Vance Smith, T. L. Marshall, H. Ierson, a H. P. Cobb, Ysw. Hwyr yr un dydd yn *Assembly Rooms* y Porth Hotel, traddodir Darlith ar "W. E. Gladstone," gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. H. P. Cobb, Ysw., Castle Green, Aberteifi, yn y gadair. Tocynau, 1s. a 6c. Dechreuir am 7.30. Gwasanaethed y rhybudd hwn fel gwahoddiad calonog i'r gweinidogion ac ereill y byddo dymuniad a chyfleusdra ganddynt i fod yn bresenol.

W. JAMES.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Cydnabyddwyd eisoes £705 17s. 1d. Parch. W. Davies, Llanybyther, 5s.; Jane Thomas, Maesyfelin, Ciliau, 2s. 6d.; D. Jones, Wigddu, do., 2s. 6d.; D. Jonathan, Foelallt, £1; T. Jonathan, Fronfedw, 10s.; W. Davies, Penbryn, 10s.; D. Davies, Penbwlch, 2s. 6d.; T. Evans, Tynant, 10s. 6d.; D. Rees, Cilgell, £2 2s.; Dr. Evans, Llanbedr, £1; W. Jones, Cambrian House, do., 5s.; Mrs. Jones, Ystrad House, do., 10s.; D. Rees, Eurfaen Hall, £1; D. Davies, Builder, 2s. 6d.; Lampeterian, 2s. 6d.; J. Jones, Draper, College st., 10s.; T. Morgan, Vale of Teifi, Llanybyther, 5s.; T. Davies, Caerau, Llanwenog, 3s.; Cyfaill, Alltyplaca, £1 1s.; Dl. Evans, Dolau Uchaf, £1; Parch. D. Evans, Maesymeillion, 5s.; Mrs. Morgans, Dolwlff, 2s. 6d.; Mrs. Thomas, Penrallt, 5s.; J. Jones, Relieving Officer, 5s.; Mrs. Thomas, Castelldu, 10s.; E. Evans, Llanwnen Shop, 10s.; E. Thomas, Moelfre, 10s.; E. Jones, Waunani, 5s.; Mrs. Evans, Llysfaen, 10s.; D. Evans, Draper, Cribin, 5s.; J. Evans, Mynach Arms, 5s.; Cyfaill, 5s; E. Evans, Maesymynach, £1; O. Jones, Abernant, Llanwenog, 2s. 6d.; J. Williams, Tanygraig Fach, 2s. 6d.; T. Thomas, South End, Cwrtnewydd, 5s.; D. M. Thomas, Cambrian House, do., 10s.; E. Thomas, Weaver, 3s.; T. Davies, Blaencwrt, 5s.; D. Jones, Troedyrhiw, 5s.; D. Jones, Brynllefrith, 5s.; T. Thomas, Pentanfawr, 5s.; John Jones, Esger, 2s. 6d.; Sarah Jones, do., 2s. 6d.; Mrs. James, Aber, 2s. 6d.; T. Jones, Maesygarn, 5s. 6d.; G. Jenkins, Cwrtnewydd, 2s. 6d.; T. Davies, Mill, 2s. 6d.; Mrs. Williams, Clarence, 2s. 6d.; T. Bowen, Board Schools, 4s; Anon, 5s. Symiau bychain, 14s.

O.Y.—Dymunwn alw sylw neillduol at y nodyn ar ddiwedd rhestr y derbyniadau yn Rhifyn Mehefin, a thaer erfyniwn ar y rhai sydd wedi addaw, ond heb dalu i gyflawni eu haddewidion, cyn neu yn ystod dyddiau yr agoriad. Mae rhyw £60 neu ragor allan heb ddyfod i mewn, a bydd y Committee yn ddiolchgar iawn am eu cael mor fuan ag y byddo bossibl, er mwyn cwblhau y cyfrifon a chyhoeddi y *Balance Sheet* yn Rhifyn Awst.

Mehefin 19eg, 1884. W. JAMES, Ysgrifenydd.